

galeri



Swydd: CYDLYNYDD RHAGLENNU

Oriau : 37 awr yr wythnos / rhannu swydd yn bosib
Cyflog: i'w drafod

Adran: Rhaglennu
Yn atebol i: Cyfarwyddwr Artistig

Dyddiad cau: 12:00 (hanner dydd) : dydd Mercher, 19.12.18
Cyfweliadau: Ionawr 3 / 4 2019

Am sgwrs bellach am y swydd hon, cysylltwch â:

Nici Beech (Cyfarwyddwr Artistig)
01286 685 204 neu nici.beech@galericaernarfon.com

Y Swydd:

Mae Galeri Caernarfon yn chwilio am berson/au creadigol a threfnus i gydlynu 'r gweithgareddau sydd yn ffurfio'i rhaglen artistig. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am arwain y prosiectau canlynol.

Sbarc:

Prosiect cynhwysfawr sy'n cynnig ystod eang o brofiadau celfyddydol i blant a phobol ifanc.

Gwyliau

Mae cynnal gwyliau arbennig e.e. PICS, Gŵyl Swigod, INC yn ffurfio rhan bwysig o raglen artistig Galeri.

Yn ogystal â'r prosiectau uchod disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu syniadau, datblygu, cyd-lynu a gweinyddu rhaglen o ddigwyddiadau eraill fel rhan o'r tîm artistig gan gynnwys:

Ffilmiau:

Mae dwy sgrîn sinema newydd Galeri yn dangos y ffilmiau diweddaraf ac fe rhaglennir ffilmiau eraill fel rhan o wyliau a rhaglen cynhwysol yn rheolaidd.

Digwyddiadau Byw a Gweithdai

Yn flynyddol mae dros 200 o ddigwyddiadau byw a nifer fawr iawn o weithdai a chyrсияu cyfranogol rheolaidd ac achlysurol.

Swydd llawn amser yw hon ond bydd ceisiadau i rannu'r swydd yn cael eu croesawu. Gall yr oriau gwaith amrywio, ac mae gofyn i'r deiliad fedru gweithio gyda'r nosau (tan 7pm a 9pm) pan fo gwersi SBARC yn digwydd ar nosweithiau Llun a Mercher, ac ar benwythnosau pan fo angen.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

SBARC

Darparu a llunio dyddiadur gweithgareddau SBARC am bob tymor

Cytundebu Tiwtoriaid ar gyfer pob tymor

Llunio cofrestrau disgyblion/gwersi a monitro taliadau cyson

Sicrhau presenoldeb ar gychwyn gwersi / ar nosweithiau digwyddiadau ychwanegol.

Bod yn bwynt cyswllt cyntaf i gyfranogwyr, tiwtoriaid, rhieni a disgyblion y prosiectau

Ymgeisio am grantiau, gweinyddu cyllidebau ac adrodd a monitro datblygiad y prosiect

Bod yn wyneb cyhoeddus i brosiect Sbarc a bod yn gyfrifol am gyflwyno diwyddiadau arbennig a dangosiadau / sioeau lle bo'r angen.

Bod yn gyfrifol am bresenoldeb y prosiectau arlein a chyd weithio efo'r Cyfarwyddwr Artistig a'r adran Farchnata ar agweddau o hyrwyddo'r prosiectau.

GWYLIAU

Cynnig syniadau, cydlynu a gweithredu rhaglen o ddigwyddiadau a chyflawni'r gwaith adolygu a monitro

Bod yn rhagweithiol wrth edrych am gyfeon i godi arian i brosiectau a bod yn gyfrifol am wneud ceisiadau am arian ychwanegol fel mae'r angen

FFILMIAU

Cyd-lynu amserlen y sinemâu a chydweithio gyda phob adran ac asiantaethau allanol i sicrhau bod y gwybodaeth yn eu cyrraedd yn brydlon.

DIGWYDDIADAU BYW A GWEITHDAI

Croesawu artistiaid a chydlynu digwyddiadau byw amrywiol yn Galeri gan gymryd a rhoi adborth.

Goruchwylio gwaith Ymarferwyr Creadigol Llawrydd mewn gweithdai

CYFFREDINOL

Cydweithio ar raglen greadigol Galeri ynghyd a cheisiadau grant gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a'r tîm rhaglennu.

Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Artistig gyda gwaith swyddfa e.e ateb galwadau ffôn i mewn i'r swyddfa, cadw cofnodion, trefnu rhestr anghenion digwyddiadau ar gyfer cyfarfod gweithrediadau wythnosol traws-adrannol a mynychu'r cyfarfod hwnnw i adrodd gwybodaeth perthnasol a thrylwyr

Cynrychioli'r Cyfarwyddwr Artistig mewn cyfarfodydd a digwyddiadau pan fydd angen ac mewn trafodaeth hefo'r Cwmni

Cynnal partneriaethau, a chreu partneriaethau newydd

Targedu grwpiau/mudiadau/ardaloedd/cynulleidfaoedd ar gyfer digwyddiadau penodol

Cynrychioli'r cwmni mewn cyfarfodydd a rhwydweithiau amrywiol e.e. Rhwydwaith Celfyddydau Ieuentid Cymru, Rhwydwaith Cyfuno Gwynedd.

Gweithio yn effeithiol fel unigolyn ac yn rhan o dim i sicrhau gweithrediad llyfn y Cwmni

Cydymffurfio efo Polisiau Iechyd a Diogelwch a gweithio'n ddiogel

Unrhyw dasgau eraill fel y bydd yn ofynnol gan y sefydliad

Manyldeb person

Person sy'n angerddol am y celfyddydau a gweledigaeth Galeri

Y gallu i gyfathrebu ac ymwneud â phobl yn gwrtais ac effeithiol ar bob lefel

Sgiliau trefnu ardderchog a'r gallu i weithio dan bwysau

Sgiliau gweinyddol a chyfrifiadurol o'r safon uchaf

Profiad o reoli prosiectau celfyddydol a /neu cymunedol yn fanteisiol

Y gallu i farchnata a datblygu prosiectau

Y gallu i weithio yn rhan o dim, cefnogi cyd-weithwyr a hyrwyddo ysbryd da

Cyfathrebwr da sy'n gwrandao ac yn gallu mynegi eu hunain yn glir yn y Gymraeg a'r Saesneg

Ymroddedig, dibynadwy ac hyblyg o ran oriau gwaith

Yn ddigon hyderus i gyfrannu syniadau

Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol a chlrir yn y Gymraeg yn hanfodol i'r swydd hon.

This is an advertisement for an Artistic Coordinator where the ability to communicate effectively through the medium of Welsh is essential.



galericaernarfon.com

Twitter: @_Galeri_

Facebook: GaleriCaernarfon

Instagram: GaleriCaernarfon